

## Trefniadau'r Nadolig

Gobeithir rhoi rhestr gyflawn o gyfarfodydd y Nadolig

yn Gronyn y Sul nesaf, Tachwedd 30

neu'r Sul canlynol, Rhagfyr 7

Anfonwch y manylion at y Gweinidog

erbyn nos Iau nesaf, Tachwedd 27

os gwelwch yn dda

### CYNLLUN EFE

**Dydd Gwener, Tachwedd 28:** Bydd y Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caethro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch.



### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Tachwedd 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa

#### Tachwedd 30

10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

#### Rhagfyr 7

9.30 a.m. - Y Gweinidog  
10.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Tachwedd 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu  
5.00 p.m. - Y Gweinidog

#### Tachwedd 30

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal rhai o chwiorydd yr eglwys

#### Rhagfyr 7

10.00 a.m. - Mr John Hughes  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr John Hughes



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris  
Rhif 614 – Dydd Sul, 23 Tachwedd, 2014

## 'Iesu Philly'

Yr eira mawr yn ardal Efrog Newydd oedd un o'r straeon a ddaeth atom o'r Unol Daleithiau'r wythnos ddiwethaf. Stori arall na chafodd yr un sylw (yn gwbl amlwg) oedd stori o Philadelphia am ddyn o'r enw Michael Grant yn cael ei arestio am 'fynnu arian gan bobl' ar strydoedd y ddinas honno. Roedd o'n gwadu iddo ofyn i neb am arian ond yn cydnabod ei fod yn fodlon derbyn cildwrn gan bobl am dynnu eu llun neu am gael tynnu eu llun efo fo.

Wrth dynnu llun yr ymwelwyr, nid yw Michael Grant yn gwneud dim byd dieithr. Peth digon cyffredin yw gweld pobl yn gwneud cymwynas ag eraill trwy dynnu llun ohonyn nhw efo'u camerâu neu ffonau symudol. Nid pawb sy'n cael arian am wneud hynny, wrth gwrs. Ond pam tybed y byddai pobl eisiau tynnu eu llun efo Mr Grant?

Mae'r ateb yn syml ac yn rhyfedd iawn. Actor o fath yw Michael Grant, ac ers saith mis mae wedi cerdded o amgylch strydoedd Philadelphia mewn gwisg wen laes a chlogyn brown mewn ymgais i dynnu sylw at Iesu Grist a'r Efengyl. Ac er bod pobl Philadelphia wedi rhoi'r enw 'Philly Jesus' iddo, mae'n pwysleisio nad yw am un eiliad yn honni mai Iesu ydyw, ond ei fod yn ceisio portreadu Iesu er mwyn tystio i'r Gwarddwr y daeth i greu ynddo wedi iddo fod mewn gwahanol drafferthion oherwydd defnydd o gyffuriau ac ati. Mae gan yr 'Iesu' hwn ffon mewn un llaw a ffôn symudol yn y llall! Mae'n sicr yn tystio mewn ffordd anarferol i

gariad a gwaith achubol Iesu Grist. Mae'n dweud bod pobl yn dod ato i glywed ei stori yn hytrach na'i fod o'n gorfod mynd i chwilio am bobl i dystio iddyn nhw am Grist.

Ond yr hyn a'm trawodd o weld ei stori oedd y sylw a wnaed gan un o drigolion Philadelphia bod gan 'Philly Jesus' dros 5,000 o 'ddilynwyr' ar *Instagram*. Rhyw fath o lyfrgell luniau ddigidol yw honno, a'r cyfan sydd angen i rywun ei wneud i ddod yn 'ddilynwr' yw pwysu botwm bach ar y ffôn symudol neu'r cyfrifiadur. Roedd gan Iesu Grist ei ddilynwyr hefyd – ac mae ganddo ei ddilynwyr o hyd. Ond nid trwy bwysu botwm na thrwy godi llaw na thrwy roi croes ar bapur y deuw yn ddilynwyr iddo fo, ond trwy greu ynddo a'i dderbyn yn Arglwydd a Gwarddwr ein bywydau; trwy greu ei eiriau hefyd a'u gwneud yn sylfaen i'n bywyd ac i'r cyfan a wnawn. Mae Iesu'n galw ar ei ddilynwyr i fyw yn debyg iddo ef ac i fod yn ufudd i'w orchmynion. Ac yn wahanol i 'Philly Jesus', nid yw Iesu Grist yn gofyn am gildwrn gan y rhai sy'n dod i'w ddilyn. Mae'n ein gwahodd i'w ddilyn ac yn ein gwahodd i ddod yn agos ato am ddim. Wedi'r cwbl, mae o wedi gwneud llawer mwy na thynnu ein llun, mae o wedi rhoi ei fywyd yn aberth drosom, am ddim, heb dderbyn tâl o gwbl. Ac eto, mae'r Iesu sydd heb ddisgwyl cildwrn o fath yn y byd am y gymwynas fwyaf oll yn gofyn i ni sy'n credu ynddo roi ein holl fywyd iddo mewn gwasanaeth a diolch.

Gofalaeth Unedig  
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnyswaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon Sul arall. Boed i Dduw fendithio ein haddoliad.

Yn Neiniolen, bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch a Chyfarfod Gweddi am 5.00 o'r gloch.

Bydd Oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein cofion gorau at bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

## Ffair Nadolig Capel Coch

**Dydd Mercher, Tachwedd 26  
am 2.30 o'r gloch**

Cynhelir Ffair Nadolig yn Capel Coch am 2.30 o'r gloch ddydd Mercher yr wythnos nesaf, Tachwedd 26 er budd Cronfa Cynnal a Chadw'r capel.

Bydd amrywiaeth o stondinau, ac arnynt nwyddau Nadolig. Bydd y byrddau gwerthu arferol ar gyfer bric-a-brac, llyfrau, cacennau ac ati.

Os oes gennych nwyddau ar gyfer y byrddau, byddem yn falch iawn ohonynt er mwyn sicrhau llwyddiant y Ffair.

Pris mynediad – yn cynnwys paned a bisged – fydd £1.

Croeso cynnes i bawb.

## Bocsys Nadolig

Diolch yn fawr iawn am yr holl focsys a baratowyd eleni eto at Ymgrych Plentyn y Nadolig. Anfonwyd bron i hanner cant ohonynt i Wrecsam ddechrau'r wythnos ddiwethaf. Derbyniwyd £234 o roddion (yn cynnwys yr arian a roddwyd gyda'r bocsys a'r rhoddion eraill a gyfrannwyd at yr elusen). Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd eleni eto.

Diolch hefyd i Mr Gwyn Hefin Jones, Brynrefail am y gymwynas o gludo'r bocsys i Wrecsam. Mi gefais osgoi mynd yno wedi iddo gynnig mynd â'r bocsys yn fy lle. Fe wnaeth yr un peth flwyddyn neu ddwy yn ôl hefyd, ac rwy'n ddiolchgar iawn am ei help.

## Agor y Llyfr

Cafwyd cyfle i egluo'r Cynllun 'Agor y Llyfr' fore Mawrth diwethaf yn Eglwys Llandinorwig. Cawsom glywed am y timau o bobl sy'n cyflwyno 'Agor y Llyfr' mewn ysgolion yn Sir Fôn, Hirael a Maesgeirchen a'r mwynhad a gaiff pobl yn y gwaith o gyflwyno straeon o'r Beibl i'r plant. Cawsom glywed hefyd am lwyddiant y cynllun hwn yn Ysgol Cwm-y-glo.

Roedd un neu ddau wedi bwriadu dod i'r cyfarfod ond wedi methu. Byddwn yn cynnal cyfarfod arall yn fuan er mwyn rhoi mwy o wybodaeth a rhywfaint o hyfforddiant syml ar gyfer cyflwyno'r straeon.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r gwaith hwn, holwch y Gweinidog am ragor o fanylion. Cewch wybod dyddiad y cyfarfod nesaf unwaith y bydd wedi ei drefnu.

## Dosbarth Beiblaidd

Cynhaliwyd y Dosbarth Beiblaidd nos Fercher. Buom yn edrych ar sawl darn o'r Ysgrhythur ar sail ail bennill y garol 'Ar gyfer heddiw'r bore' gan Eos Iâl.

Mae'n amlwg ei bod yn garol hynod o gyfoethog. Mae'n amhosibl darllen y garol heb sylwi mor olau oedd yr awdur yn ei Feibl. Fe ddown yn ôl at y garol wythnos i nos Fercher, Rhagfyr 3.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir y Cyfarfod Gweddi nesaf yn nhy Andrew Settatee, Cartref, Caeathro rhwng 10.30 a 11.15 o'r gloch fore Gwener, Tachwedd 28.

Croeso i unrhyw un ddod atom, ac nid oes rhaid poeni am ddod bob wythnos os nad yw'n hwylus wrth gwrs.

## CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch nos Wener, Tachwedd 28 rhwng 7.00 ac 8.30 o'r gloch.

Mae croeso i unrhyw un o Flwyddyn 6 ymlaen i'r cyfarfod hwn.

## Cardiau Nadolig

Mae cardiau Nadolig Cyngor Ysgolion Sul i'w cael am £2 y pecyn gan Mrs Jane Thorman Jones gyda'r elw at Ysgol Sul Deiniolen.

## Newid trefn

Bydd un newid bach yn nhrefn oedfaon Capel Coch o ddechrau Ionawr ymlaen. Gan y bydd yr Ofalaeth yn ymestyn i gynnwys dwy eglwys arall, ni fydd y gweinidog yn gwasanaethu yn Capel Coch ar bedwerydd nos Sul y mis.

Felly, oherwydd y newid anorfod hwn yn nhrefniadau'r Ofalaeth, ni fydd oedfa yn Capel Coch ar y pedwerydd Sul o'r mis, gan gychwyn yn Ionawr 2015.

## Cyhoeddiadau

**CEFNYWAUN AC EBENESER**

**Dydd Sul, Tachwedd 30:** Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch ac oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal y Parchg Cath Williams, Caernarfon.

**CAPEL COCH A NANT PADARN**  
**Dydd Mercher, Tachwedd 26:** Ffair Nadolig Capel Coch yn y festri am 2.30 o'r gloch.

**Nos Wener, Tachwedd 28:** CIC am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Tach. 30:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mrs Nerys Griffith. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal rhai o'r chwiriorydd.

**REHOBOTH**

**Dydd Sul, Tachwedd 30:** Dim oedfa.